## CRYNODEB ANNHECHNEGOL - DATGANIAD DULL A STRATEGAETH LINIARU YSTLUMOD (AWST 2025)

Mae'r Datganiad Dull a Strategaeth Liniaru Ystlumod canlynol wedi'u paratoi ar ran Adran Amgylchedd CSFf. Mae'n crynhoi canlyniadau arolygon ystlumod a gynhaliwyd yn Chwarel Llanddulas o ran hen dwneli'r chwarel (T1-T4) ac mae'n egluro cwmpas y camau lliniaru sydd eu hangen er mwyn sicrhau Statws Cadwraeth Ffafriol ystlumod yn y safle ar ôl ei ddatblygu.

Mae ystlumod yn cael eu gwarchod yn llawn dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd).

Cynhaliwyd dau arolwg archwiliad gweledol o aeafgysgu ar hen dwneli'r chwarel ym mis Chwefror 2018, a chynhaliwyd arolygon clwydo nosol ym mis Awst a mis Medi 2017. Cynhaliwyd pob arolwg yn unol ag arfer gorau a methodoleg arolwg.

Yn ystod y ddau arolwg gaeafgysgu yn y gaeaf, ni welwyd unrhyw dystiolaeth o ystlumod yn gaeafgysgu yn Nhwnnel 1 a 4, ond gwelwyd ystlum pedol lleiaf yn gaeafgysgu ac Ystlum y Dŵr yn Nhwnnel 2 a gwelwyd ystlum pedol lleiaf yn gaeafgysgu yn Nhwnnel 3. Roedd y tri ystlum yn bresennol yn ystod y ddau arolwg yn yr un lleoliadau bob tro.

Cadarnhaodd yr arolygon clwydo nosol ddau ystlum lleiaf ac un rhywogaeth Myotis yn dod allan o Dwnnel T4. Roedd nifer a rhywogaeth yr ystlumod a welwyd yma yn cadarnhau bod y twnnel hwn yn glwyd fach yn ystod y dydd sy'n cynnwys rhywogaethau cyffredin ac eang.

Bydd cynigion yn golygu colli Twnnel T3 yn unig, a gaiff ei gau. Caiff T1 ei gadw fel llwybr mynediad brys i'r safle tirlenwi i'r de, caiff T2 ei gadw heb fawr ddim addasu, a chaiff T4 ei gadw a'i wella er budd ystlumod.

Ar hyn o bryd, bydd effaith ar ystlumod yn cynnwys risg o farwolaeth neu anaf i ystlumod unigol o ganlyniad i golli T3, yn ogystal â cholli safle gaeafgysgu ar gyfer ystlumod pedol lleiaf yn T3. Mae ystlumod pedol lleiaf yn rhywogaeth Atodiad II a dylid rhoi gofal arbennig iddynt o ran datblygiad. Mae'r clwydi gaeafgysgu a nodwyd ar y safle yn cynnwys ystlumod unigol, sy'n awgrymu bod y safle yn darparu cynefin ategol statws is i'r clwydi mwy sy'n bresennol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Calchfaen Llanddulas a Choedwig Castell Gwrych.

Mae'n bosibl y bydd gwella T4 (fel mesur lliniaru ar gyfer colli T3) yn arwain at gynnydd o ran gwerth y safle i ystlumod yn y tymor hir, fel nad yw'r datblygiad yn debygol o gael unrhyw effaith negyddol sylweddol cyffredinol ar y boblogaeth ystlumod leol, a chaiff statws cadwraeth ffafriol ystlumod ei gynnal os nad ei wella o ganlyniad i ddatblygu'r safle.

Pe bai arolygon pellach (lle gellir trefnu mynediad yn ddiogel) yn nodi clwyd gaeafgysgu neu glwyd haf o arwyddocâd uwch, ystyrir y gallai'r safle gynnig y lefel gyfatebol o fesurau lliniaru, o ystyried y cyfleoedd a gyflwynir gan y twneli a gedwir a chynefinoedd y safle ehangach.